

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 21 Medi 2021.

Presennol: Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd (yn bresennol o 7.30 y.h.)

Cynghorydd Siân Enfys Jones – Is-gadeirydd a gadeiriodd y cyfarfod hyd at 7.30

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, Lowri Owen, Sharon Parry ac Einir Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc).

Cais gan aelod o'r cyhoedd i siarad - fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd.

Hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod preswylwyr yn bryderus am y nifer cynyddol o draffig oedd yn teithio tua'r gogledd ar y lôn heibio Plas Llanfair, Felin Wen a Cherrig Iago tuag at Ffordd Cymyran. Er ei bod yn gul a throellog, roedd wedi bod yn lôn bach gymharol ddiogel hyd at yn ddiweddar ac roedd yn boblogaidd iawn gyda cherddwyr, marchogion a beicwyr o achos hynny. Fodd bynnag, roedd y digwyddiadau diweddar a gynhaliwyd ym Mhlas Llanfair wedi arwain at gynnydd enfawr yn nifer y cerbydau sy'n cael eu cyfeirio ar hyd y lôn. Ymddengys fod system un-ffordd answyddogol wedi'i sefydlu fel bod pob car yn cael ei anfon i un cyfeiriad ar hyd y lôn hon. O ganlyniad, roedd gyrrwyr yn tybio na fyddent yn cwrdd â thraffig yn dod i'w gwyneb ac roedd sawl un wedi ymddwyn yn ymosodol at y rhai oedd yn teithio tuag atynt. Roedd rhy ychydig o safleoedd i dynnu i mewn ar y lôn a gan fod y mwyafrif yn anghyfarwydd â'r lôn roeddent yn methu a symud yn ôl ac ati. Roedd y system un-ffordd answyddogol hon yn niwsans i drigolion ac yn beryglus i bawb oedd yn ei defnyddio'r lôn.

Gofynnwyd i'r Cyngor Cymuned a ellid gwneud rhywbeth i: a) atal hyn rhag digwydd eto, b) i greu mwy o safleoedd i geir basio, c) gosod drychau i gynorthwyo gwelededd. Byddai'r sefyllfa'n gwaethgu'r tymor nesaf pan fydd mwy o garafanau a gwersyllwyr angen mynediad ar hyd y lôn ac roedd yn debyg y bydd Plas Llanfair yn trefnu llawr mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol agos.

Roedd sawl aelod yn ymwybodol o'r 'digwyddiadau' ac wedi gweld cyfeiriadau ar Facebook oedd yn ymddangos bod rhyw fath o drefniant unffordd wedi ei sefydlu. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn edrych ar sut i wella'r sefyllfa.

Rhodddwyd croeso cynnes i Cyng. Lowri Owen i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Cymuned.

- 1. Ymddiheuriadau:** Cyng. William Victor Owen a Beryl Salisbury.
- 2. Datganiad o ddiddordeb** - Cyng. Furlong yn datgan diddordeb rhagfarnol yn eitem. 7.2 cais cynllunio FPL/2021/259, Bryn Ednyfed - fe adawodd y cyfarfod am yr eitem heb gymryd rhan o gwbl yn y drafodaeth.
- 3. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol** - Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Sharon Parry.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion

- 4.1 Cae Chwarae:** - Roedd y swing fasged wedi'i gosod ac roedd yn boblogaidd iawn.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Dywedwyd nad oedd y contractwr yn medru dechrau gweithio ar arwynebau rwber a chael gwared a'r meinciau ac ati tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd ymrwymadau gwaith eraill. Cynigodd Cyng. Furlong eu symud pe gallai rhywun ei helpu i'w codi, cytunodd Cyng. Dyfed Williams i gynorthwyo. Dywedodd Cyng. Gwilym Jones y buasai yn mynd ar drywydd y meinciau a addewidwyd gan Kenton Jones Ltd gyda'r Cyngor Sir. Yn y cyfamser, byddai'r clerch yn canfod prisiau meinciau plastig wedi'u hailgylchu.

- 4.2 Llochesi fws - Roedd Cyng. Furlong wedi bod yn torri'r brigau coed wrth y lloches ar Lon Cymyran a'r mieri wrth y lloches garreg yng Nghaergeiliog.
- 4.3 Llwybrau - Dywedodd Cyng. Dyfed Williams y byddai yn edrych ar ba lwybrau troed oedd angen toriad arall. Roedd y clerch i gysylltu â'r Cyngor Sir ynghlŷn â'r gamfa wrth giat Ysgubor Bach.
- 4.4 Hysbysfwrdd - Cytunwyd y dylai'r clerch ofyn i Mr Mills roi pennawd Cymraeg ar y bwrdd wrth y Neuadd y Pentref. Gofynnwyd iddi hefyd wneud ymholiadau gyda'r Padre am rannu hysbysfwrdd wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn.
- 4.5 Adeilad y Sportsman - Chafwyd dim ymateb i'r ymholiad am fwriadau'r perchennog ar gyfer yr adeilad.
- 4.6 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

5. Materion Plwyfol

- 5.1 Materion Traffig Llanfair yn Neubwll - Roedd cynyddu yn y traffig am fod llai o deuluoedd yn rhannu ceir wrth fynd â'u plant i'r ysgol. Cytunwyd i wneud cais am linellau melyn ar yr A5 wrth y neuadd y bentref.
- 5.2 Cynghrair Llifon Alliance
Is-grŵp Plant a Phobl Ifanc – Cyng. Lowri Owen a Sharon Parry am fynychu hwn.
Is-grŵp Trafnidiaeth - Cyfarfod 30/09/2021 630pm. Cyng. Gwilym O. Jones am fynychu hwn ond roedd angen mwy o aelodau hefyd.

6. Penderfyniadau Cynllunio - dim

7. Ceisiadau Cynllunio

- 7.1 **FPL/2021/225 Tyn Llan, Y Fali / Valley**
Cais llawn ar gyfer adeiladu man storio silwair a thanc o dan y ddaear i gasglu hylif ynghyd ag adnewyddu'r iard goncrit presennol a ffurfio trac rhwng clampiau silwair - dim gwrthwynebiad. [Cofrestr Gyhoeddus](#)
- 7.2 **FPL/2021/259 Bryn Ednyfed, Holyhead Road, Caergeiliog**
Cais llawn am godi adeilad amaethyddol ar gyfer magu llo - dim gwrthwynebiad
[Cofrestr Gyhoeddus](#)

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Gadawodd Cyng. Furlong y cyfarfod heb gymryd rhan yn y drafodaeth ar hwn.

8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.7.2021 i 31.8.2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £22,556.13, Cyfrif Cadw £3,938.87

9. Taliadau i'w gwneud :

Cyflog mis Gorfennaf	£243.61	GMS Ground Services	£120
Cyflog Awst	£243.61	Arolygu offer chwarae.	£45.36

10. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

- 10.1 Newyddlen Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned – Roedd Adroddiad yn dilyn adolygiad y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned – Mehefin 202 eisoes wedi ei gylchredeg i Aelodau. Fe nodwyd y materion a godwyd ac fe fabwysiadwyd yr ymarferon gorau.
- 10.2 Diweddarau'r canllawiau er mwyn cefnogi Model God Ymddygiad 2016 - Nodwyd nad oedd newidiadau i'r Cod Ymddygiad ond pwrpas y ddogfen hon oedd egluro agweddau o'r cod gan gynnwys datgelu diddordeb personol a rhagfarnol, - ymddygiad amhriodol, gofyn am ganiatâd arbennig, anfri ac ati.
- 10.3 Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - 22.9.2021
- 10.4 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn -23.9.2021
- 10.5 SP Energy Networks : Gwahoddiad i Is-orsaf Gaergeiliog
- 10.6 Rhag-rybudd: Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - cyfarfod rhithiol 6.30, 29.9.2021
- 10.7 Sesiynau hyfforddiant o bell Un Llais Cymru.
- 10.8 Ymgynghoriad Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Drafft Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru)
- 10.9 Cam olaf y broses ymgynghori ar gyfer Map Rhwydwaith Teithio Llesol Ynys Môn ar agor
[ymgyngori](#)

11. Adroddiadau Aelodau - dim

12. Cyfarfod Nesaf - 19 Hydref 2021

